**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Mawrth 2019 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James (Maer)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard,
Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Ms J. McAlpine,
B. Mellor, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, R. J. Turner a
Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**149. <u>DECHRAU'R CYFARFOD A CHYHOEDDIADAU</u>**

Dechreuodd Caplan y Maer, Archddiacon Llanelwy, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

**150. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs P. M. Jones, D. L. King, Miss S. L. Roberts a Mrs J. Chamberlain-Jones.

**151. <u>COFNODION</u>**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 20fed Chwefror 2019 - Rhifau Cofnod 135-148

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W M Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E M Chard a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Chwefror 2019 - Rhifau Cofnod 52-54

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W M Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 6ed Mawrth 2019 - Rhifau Cofnod 55-57

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W M Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

<u>Cadarnhau neu fel arall:</u>

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 6ed Mawrth 2019 - Rhifau Cofnod 104-115

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A J Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C L Williams a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu yn amodol ar y newid uchod o ran presenoldeb*

**152. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y digwyddiadau y bu iddi hi a'r Dirprwy Faer eu mynychu yn ystod y mis diwethaf ac yn arbennig at agor gwesty Travelodge ar lan y môr, dathliadau pen-blwydd 100 oed Mrs Margaret Clark, agor Gardd Fwyd Gymunedol Geufron, lansio Ysgol Crist y Gair Drysau Agored Cymru a Dathlu'r Gwobrau Cymunedol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**153. CYFLWYNIAD: RHAGLEN NYTH LLYWODRAETH CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 25 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 4ydd Gorffennaf 2018, dywedodd Clerc y Dref nad oedd Mr Rick Ward, Rheolwr Datblygu'r Bartneriaeth, yn anffodus, yn medru mynychu.

Roedd Mr Ward wedi anfon copi o'i gyflwyniad, serch hynny, a gofynnodd Clerc y Dref a fyddai'r aelodau yn hoffi ei weld cyn penderfynu os dylid gwahodd Mr Ward unwaith eto i roi mwy o fanylion ar y rhaglen.

***PENDERFYNWYD*** *dosbarthu'r cyflwyniad i'r aelodau.*

**154. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MAWRTH 2019**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 702 | TAPE | 125.00 | Perfformiad Ghostbuskers yn nigwyddiad Gwyl Dewi |
| 703 | Y Cyngh Mrs Win Mullen-James | 25.00 | Ad-daliad am flodau ar gyfer dathlu pen-blwydd 100 oed |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£150.00** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad a'i lofnodi gan ddau gynghorydd.*

**155. PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU – PENDERFYNIADAU TERFYNOL**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn amlinellu penderfyniadau'r panel a sut maent i gael ei gweithredu, ac yn gofyn am gytundeb yr aelodau i gyfeirio'r lwfansau dinesig a sut maent i'w rheoli at yr Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol, a oedd, yn anffodus, heb gworwm yn ei gyfarfod ar 12fed Mawrth.

Dywedodd Clerc y Dref y byddai'r lwfans blynyddol o £150 a oedd ar gael i bob aelod yn cael ei dalu ym mis Ebrill, a dylai unrhyw un a oedd eisiau gwrthod y taliad gwblhau'r ffurflen (Atodiad 1 i'r adroddiad) a'i dychwelyd iddo cyn gynted ag y bo modd.

Cadarnhaodd Clerc y Dref y byddai lwfansau'r aelodau y cael eu cyhoeddi bob mis Medi ar wefan y Cyngor Tref ynghyd â chofnodion presenoldeb yr aelodau, a fyddai'n cael eu cyhoeddi ar ôl pob blwyddyn ddinesig.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y penderfyniadau a chyfeirio'r elfen lwfansau dinesig at yr Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol ac adrodd yn ôl i'r cyngor.*

## 156. EITEMAU ER GWYBODAETH

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion brys i'w codi.

## 157. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 158. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 159. GWYBODAETH: COFNODION CYFRINACHOL

Cyfeiriodd y Maer at y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a gyflwynwyd er gwybodaeth i'r aelodau.

Pwyllgor CSG - 11eg Chwefror 2019 - Rhifau Cofnod 58-66

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

## 160. PWYLLGOR CSG – GWARIANT GWASANAETHAU A GOMISIYNWYD

Adroddodd Clerc y Dref bod y Pwyllgor CSG wedi argymell cynnig gweddill y gyllideb Gwasanaethau a Gomisynwyd 2018/19 (£8,000) i roi arian cyfatebol tuag at geisiadau grant a wnaed gan y Siop Cymorth ar Fudd-daliadau (SCF) yn amodol ar gais ffurfiol yn cael ei wneud i'r Cyngor Tref gan SCF.

Dywedodd Clerc y Dref, os na fyddai cais yn cael ei wneud am yr arian, y byddai'n cael ei ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn y cyngor a'u dyrannu wedyn.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r argymhelliad.*

## 161. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………………….……..

Dyddiad: …………………………